# COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 7 Mehefin 2000 | |
| **Amser:** | 9.00am tan 12.15pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Gynadledda 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Kirsty Williams (Cadeirydd) | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| | Geraint Davies | Y Rhondda |
| | Jane Hutt (YC) | Bro Morgannwg |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Lynne Neagle | Tor-faen |
| | Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| | **Swyddogion** | |
| | Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |
| | Peter Gregory | Cyfarwyddwr NHS Cymru |
| | Graham Williams | Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| | Sarah Beaver | Yr Is-Adran Gyllid yr NHS |

| | |
|---|---|
| Chris Burdett | Yr Is-Adran Plant a Theuluoedd |
| Irene Allen | Yr Is-Adran Plant a Theuluoedd |
| Keith Ingham | Yr Is-Adran Plant a Theuluoedd |
| Mike Burns | Yr Is-Adran Plant a Theuluoedd |
| Mark Partridge | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Maria Michael | Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Barrie Wilcox | Yr Is-Adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol |
| Jane Westlake | Clerc |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau nac amnewidiadau.

1.2 Roedd yr Ysgrifennydd Cynulliad i fod i gyhoeddi datganiad i’r wasg yn ddiweddarach yn y dydd i gyhoeddi’r targedau newydd i Awdurdodau Iechyd er mwyn lleihau’n sylweddol y cyfnod y mae cleifion yn aros am driniaeth. Byddai hefyd yn cynnwys manylion am greu rhaglen, *Innovations in Care*, a anelir at foderneiddio mynediad cleifion i driniaeth mewn ysbytai ledled Cymru ac a fyddai’n cael ei harwain gan Susan Burnett. Ceir copi o’r datganiad i’r wasg yn Atodiad A.1.3. Awgrymodd Jane Hutt y dylai Ms Burnett gyfarfod â’r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

<u>Prif Bwyntiau’r Drafodaeth</u>

1.3 Mewn ymateb i’r cwestiynau gan yr aelodau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad

- mai un o rolau *Innovations in Care* fyddai monitro awdurdodau iechyd a sicrhau bod targedau’n cael eu bodloni.
- bod gan Orthopedeg a llawdriniaeth ar y galon broblemau o ran niferoedd a byddai’n ofynnol i awdurdodau iechyd ddatblygu rhaglenni tymor hwy i ddelio ag amserau a rhestrau aros yn y meysydd hyn. Byddai’r Ysgrifennydd Cynulliad yn adrodd i’r Pwyllgor yn nes ymlaen ar y targedau a bennwyd ar gyfer yr arbenigeddau hyn.
- rhoddwyd gwybod i’r ymddiriedolaethau iechyd ym mis Mai am eu dyraniadau a chawsant gymeradwyaeth i hysbysebu swyddi. Ni ddylent fod o dan anfantais o’u cymharu â Lloegr.

1.4 Dywedodd Peter Gregory y gallai gymryd dwy neu dair blynedd i’r targedau Orthopedeg gael eu bodloni oherwydd yr angen i ddatblygu niferoedd. Dylai hyn gael effaith ar lawdriniaeth ar y galon ymhen 12 a 18 mis.

**Eitem 2: Cylch Cynllunio Cyllidebol a Chorfforaethol**
**Papur: HSS-12-00(p.1)**

2.1 Gwnaeth yr Aelodau’r sylwadau canlynol ar bapur yr Ysgrifennydd Cyllid:

- roedd angen targedau penodol a mesuradwy cyn y gellid cytuno ar unrhyw flaenoriaethau cyllidebol.
- Dylid ailddrafftio’r nawfed pwynt bwled o dan y pennawd "Gwell iechyd a lles" i gydnabod pwysigrwydd buddsoddi cyfalaf ar gyfer NHS modern.
- Amlygwyd yr anawsterau sy’n wynebu Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd wrth fodloni eu targedau. Roedd pryder cyffredinol yngln â darparu gwasanaethau canser.
- Roedd hyrwyddo iechyd a lles yr un mor bwysig â thriniaeth.

2.2 Mewn ymateb, dywedodd Jane Hutt nad oedd targedu cymunedau difreintiedig yn fater ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn unig a bod angen cymryd gofal wrth sicrhau nad oedd y targedau yn canolbwyntio ar y sector llym yn unig ond hefyd yn cydnabod targedau cynnydd iechyd. Gallai *Cymunedau yn Gyntaf* fod yn llwybr ar gyfer hyn. Roedd hefyd yn hanfodol na ddylid diystyru’r gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl. Ni ellid gwahanu materion iechyd a lles oddi wrth addysg, tai a’r economi.

2.3 Nododd fod y Grp Strategaeth Arolygu Fformiwlau wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf a bod amddifadedd cymdeithasol ar ei agenda. Nid oedd yr holl arian ar gyfer yr NHS yn seiliedig ar y pen.

<u>Casgliad</u>

2.4 I grynhoi, dywedodd y Cadeirydd y byddai’n anodd blaenoriaethu gwariant heb ragor o wybodaeth am dargedau a’r ffordd y gellid eu mesur a’u cyflawni, y costau dan sylw a’u goblygiadau i weddill y gyllideb. Byddai angen gwybodaeth fwy penodol ar gyfer trafodaethau pellach.

2.5 Dywedodd Peter Gregory ei fod yn derbyn bod angen bod yn benodol, ond nad oedd y materion yn syml bob amser a bod angen ymagwedd system gyfan.

<u>Gweithredu</u>

2.6 Byddai’r Ysgrifennydd Cynulliad yn cyflwyno adroddiad i’r Ysgrifennydd Cyllid ar sylwadau’r Pwyllgor.

2.7 Byddai hefyd yn ymateb ar wahân i bryderon Geraint Davies yngln â phroblemau yn sgîl lefelau rhenti isel mewn ardaloedd difreintiedig sy'n effeithio ar ymarferoldeb projectau gofal iechyd.

**Eitem 3: Adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Ofal Plant**
**Papur: HSS-12-00(p.2)**

3.1 Teimlwyd bod gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fwy o ddiddordeb na'r hyn a amlygwyd yn Atodiad 1b. Cadarnhawyd y byddai pob Pwyllgor yn trafod Ymateb y Cynulliad i'r adroddiad.

3.2 argymhellion yr adroddiad:

1. Byddai'n ddefnyddiol cymharu lefelau'r arian a roddir i Bartneriaethau Gofal Plant yng Nghymru a Lloegr.

3. Dylid hyrwyddo arferion gwaith "Cyfeillgar i'r teulu" yn fwy effeithiol.

12. Roedd plant o dan chwech oed yn dysgu orau trwy chwarae.

17. Ni fyddai cofrestru yr holl staff gofal plant yn rhydd o wallau, ond byddai'n tawelu ac yn diogelu rhieni i raddau.

21. Dylid ailddrafftio'r ymateb i adlewyrchu penderfyniadau'r Cynulliad ar y Comisiynydd Plant.

29. Roedd angen i'r arian ar gyfer projectau gofal plant fod yn gynaladwy. Dylid rhoi ystyriaeth i gymorthdaliadau tymor hwy a'r dull o adfer costau oddi wrth y rheini a allai fforddio talu. Er gwaethaf lwfansau o dan y cynllun Credyd Teuluol, roedd rhai rhieni yn methu â fforddio gofal plant o hyd. Dylid monitro'r ffordd yr oedd awdurdodau lleol yn gweithredu Sure Start.

31. Cadarnhaodd Jane Hutt bod y ffigurau yn yr Adroddiad yn anghywir. Roedd ffigwr y targed is (21,625) yn yr ymateb yn gywir ac yn gyraeddadwy.

35. Roedd angen i'r ymateb hwn adlewyrchu pë er y Cynulliad i lywio Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Roedd prinder gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd y gost yn uwch.

36. Roedd angen i'r ymateb hwn fod yn gryfach.

37. Roedd angen mwy o gymorth ar deuluoedd â phlant ag anghenion arbennig. Roedd hwn yn fater pwysig iawn, gan y gallai effeithiolrwydd triniaeth a therapi fod yn llawer

mwy pe baent yn cael eu cyflwyno yn gynharach.

41. Roedd angen ymrwymiad tymor hwy i ariannu Chwarae Teg.

46. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cynulliad osod esiampl ar y mater hwn. Roedd angen cymryd camau cyn yr adeilad newydd i sicrhau bod cyfleusterau gofal plant ar gael i bob aelod a staff y Cynulliad. Roedd y ddarpariaeth bresennol ar gyfer plant sy'n dod gydag ymwelwyr i Adeilad y Cynulliad yn gwbl annigonol. Dyma unig argymhelliad Grp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol nad oedd wedi ei ddatblygu ymhellach.

3.3 Pwysleisiwyd bod darpariaeth lleoedd gofal plant mewn ardaloedd gwledig yn destun pryder penodol, a'r trafferth sydd gan ddarparwyr gofal plant i gael cyngor a chymorth digonol i ddatblygu eu gwasanaethau.

3.4 Pwysleisiwyd bod darpariaeth gofal plant i bobl sy'n gweithio shifftiau yn broblem gynyddol hefyd.

Camau a Chasgliadau

3.5 Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cynulliad a'r Ysgrifennydd Cyllid gan fynegi barn gadarn y Pwyllgor ar ddarpariaeth y trefniadau gofal plant ym Mae Caerdydd.

3.6 Bydd papur yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau yn cymharu'r arian ar gyfer partneriaethau gofal plant yng Nghymru a Lloegr.

3.7 Bydd y Clerc yn trefnu bod yr aelodau yn derbyn gwybodaeth am drefniadau arian cymharol partneriaethau Gofal Plant yng Nghymru a Lloegr

**Eitem 4: Ymateb y Cynulliad i "Ar Goll Mewn Gofal" – Adroddiad Waterhouse**
**Papur: HSS-12-00(p.3)**

Prif Bwyntiau'r Drafodaeth

4.1 Teimlwyd bod yr ymateb yn ddechrau da ond bod angen bod yn gliriach yngln ag ai ymateb y Cynulliad cyfan ydoedd neu ymateb y weinyddiaeth. Roedd hefyd angen iddo gynnwys rhai graddfeydd amser ar gyfer camau a fwriedir a chyfleu brys a phwysigrwydd yr ymateb.

4.2 Nododd yr Ysgrifennydd Cynulliad mai *Plant yn Gyntaf* fyddai'r prif symbyliad i Awdurdodau Lleol ddatblygu'r argymhellion a byddai'r holl gynlluniau'n cael eu monitro'n ofalus. Roedd hefyd o'r farn bod angen codi proffil y Gwasanaethau Cymdeithasol ac y byddai hyn yn cael effaith ar y trafodaethau cyllideb i ddod.

4.3 Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â cham-drin yn Uned Seiciatryddol Gwynfa, dywedodd Peter Gregory nad oedd yng nghylch gorchwyl Syr Ronald Waterhouse i gynnwys Gwynfa yn ei ymchwiliad, ond bod Arolwg Polisi wedi ei sefydlu i ystyried goblygiadau'r honiadau. Roedd y gwaith wedi ei gwblhau ond roedd cyhoeddi'r canfyddiadau wedi cael ei ddal yn ôl tra'n disgwyl Adroddiad Waterhouse. Byddai'r Ysgrifennydd Cynulliad bellach yn ystyried y canfyddiadau yng ngoleuni canfyddiadau Syr Ronald Waterhouse. Roedd angen rhoi ystyriaeth i'r modd y caiff gwasanaethau cyffredinol yr NHS i blant mewn gofal eu darparu.

4.4 Nododd hefyd fod arolwg wedi ystyried mynediad yr heddlu i gofnodion meddygol wrth ymchwilio i honiadau o gam-drin yn yr NHS. Parthed cyrff rheoliadol, fodd bynnag, roedd pryderon yngln ag a oedd staff yr NHS yn ddigon ymwybodol o'u dyletswyddau.

4.5 Gwnaed y pwyntiau penodol canlynol wrth drafod yr ymateb i argymhellion yr adroddiad:

1.2 Gofynnwyd y dylid ychwanegu pwynt bwled ychwanegol i gydnabod y bu cam-drin yn Uned Seiciatryddol Gwynfa.

5.11 Croesawyd yr arweiniad hwn.

5.26 Cafwyd cefnogaeth gref i'r fenter Child Safe in Sport.

6.13 Roedd angen monitro'r ffordd yr oedd unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael eu gwario.

6.15 Roedd yn bwysig bod gan yr awdurdodau lleol gyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir parthed gwasanaethau plant a'u bod yn rhan annatod o'u strwythurau newydd.

7.3 Dylai'r ymateb nodi sawl awdurdod oedd wedi ymateb i'r cais am wybodaeth.

7.11 Er mwyn i'r argymhelliad hwn weithio, byddai angen mwy o ymrwymiad i gwrdd â goblygiadau adnoddau.

7.17 Dylid rhoi gwybodaeth bellach ar amseru mater arweiniad arfaethedig a'i gynnwys.

7.20 Dylid arolygu arweiniad presennol.

7.21 Cydnabuwyd y trafferth wrth gynnal gweithdrefnau disgyblu mewnol yn ystod ymchwiliad troseddol, ond teimlwyd ei bod yn bosibl i'r ddwy redeg ar y cyd, o dan Godau Ymarfer, a pheidio â llesteirio gweithdrefnau mewnol.

7.24 Cafodd hyn gefnogaeth gref. Roedd perygl y byddai safonau'n llacio os yw'n anodd

recriwtio rhieni maeth.

7.26 Croesawyd cyflwyno Targedau Hyfforddiant Cenedlaethol ond mynegwyd pryder am allu’r Awdurdodau Lleol i ddarparu adnoddau, nid yn unig yn ariannol ond hefyd yn nhermau cynnwys staff a oedd yn derbyn hyfforddiant. Efallai nad yw’r targed ar gyfer 2003 yn realistig.

7.30 Cafodd hyn gefnogaeth. Teimlwyd bod angen codi statws a phroffil gweithwyr cymdeithasol.

7.35 Cydnabuwyd bod angen telerau ac amodau, cydnabyddiaeth a rhaglenni cymorth priodol i ddenu rhieni maeth addas.

7.37 Ystyriwyd ei bod yn bwysig bod person ifanc yn gallu dewis ei gynghorydd ei hunain neu ei newid os nad oeddynt yn fodlon.

7.54 Cafwyd argymhelliad cryf bod angen gwneud hyn yn ofyniad.

7.71 Croesawyd y cynnydd yr oedd y Pwyllgor Gweinidogol yn ei wneud.

<u>Camau a Chasgliadau</u>

4.6 Byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a’r Cyngor Partneriaeth i dynnu eu sylw at yr ymateb drafft a sylwadau’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.7 Cytunwyd na ddylid oedi wrth gyhoeddi’r ymateb ond na ddylai’r Rhagair bwysleisio unrhyw faterion yn weddill a oedd yn ymwneud â graddfeydd amser neu gyngor gan Bwyllgorau eraill.

4.8 Gofynnodd y Cadeirydd y dylai’r Pwyllgor gael gwybod am yr arolwg o oblygiadau adroddiad Waterhouse a’r honiadau o gam-drin yn uned blant a glaslanciau Gwynfa i’r NHS.

**Eitem 5: Deddfwriaeth Eilaidd – Diwygiadau i Reoliadau ar Fabwysiadu a Bod yn Rhiant Maeth Papur: HSS-11-00(p.4)**

5.1 Byddai’r diwygiad arfaethedig i’r rheoliadau yn rhoi’r disgresiwn i’r awdurdodau lleol ac yn cysoni Cymru a Lloegr, lle mae’r diwygiad eisoes wedi ei gyflwyno. Fodd bynnag, yn ystod yr ymarferiad ymgynghorol ni fu galw mawr iawn am newid gan awdurdodau lleol Cymru.

<u>Prif Bwyntiau’r Drafodaeth</u>

5.2 Nid oedd ymddygiad o dan 18 oed yn aml yn awgrym o ymddygiad a ffordd o fyw yn y dyfodol.

5.3 Mynegwyd pryder bod dystiolaeth bod dynion du ifanc yn cael eu collfarnu'n aml o achosi Niwed Corfforol Difrifol (GBH) ar gyfer yr un drosedd ag y byddai dyn gwyn ifanc yn derbyn collfarn am Niwed Corfforol Gwirioneddol (ABH). Roedd gwahaniaeth barn yngln ag a oedd hyn yn rhywbeth y dylai'r Cynulliad fynd i'r afael ag ef trwy gynnwys GBH yn y rheoliadau drafft, o ystyried ei gyfrifoldebau am gyfle cyfartal o dan a120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Teimlad yr aelodau eraill nad oedd tystiolaeth gryf bod camwahaniaethu, bod GBH yn gollfarn difrifol iawn a bod y pwnc yn fater i'r system farnwrol.

5.4 Barn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol oedd ei fod yn annhebygol y byddai her gyfreithiol lwyddiannus mewn perthynas â'r prif reoliadau, fel yr oeddent, pe bai'n seiliedig ar y gwrthdaro amlwg rhwng gwaharddiad cyffredinol ar gyfer troseddau penodol a'r egwyddor o roi'r flaenoriaeth i drin lles plant.

5.5 Roedd Arolwg y Prif Weinidog o Fabwysiadu a Bod yn Rhiant Maeth yn cynnwys Lloegr yn unig ond unwaith ei fod wedi ei gyhoeddi byddai cyfle i'r Cynulliad ystyried ei ganfyddiadau yng nghyd-destun Cymru.

<u>Camau a Chasgliadau</u>

5.6 Roedd yr Aelodau yn weddol gefnogol o'r argymhelliad i rhoi'r disgresiwn i'r Awdurdodau Lleol ddileu'r gwaharddiad llwyr i berson a gafodd gollfarn neu rybudd am Niwed Corfforol Gwirioneddol a gyflawnwyd o dan 18 oed. Fodd bynnag, am nad oedd unrhyw bwysau ar unwaith gan yr awdurdodau lleol i gyflwyno'r newid hwn, cytunwyd y byddai ymarferiad ymgynghorol arall yn cael ei gynnal a fyddai'n ceisio barn hawliau dynol a grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn benodol.

**Eitem 6: Blaenraglenni Gwaith Pwyllgorau Pwnc Eraill**
**Papur: HSS-12-00(p.5)**

6.1 Roedd yr Aelodau yn dymuno cael mewnbwn i unrhyw drafodaeth ar arolygu addysg uwch yn ymwneud ag addysg feddygol (Addysg a Hyfforddiant Ôl 16), anghenion addysgol arbennig (Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar) ac unrhyw drafodaeth ar faterion yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

6.2 Cytunwyd y byddai David Melding yn cael ei enwebu i fynychu'r Pwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar oherwydd ei ddiddordeb arbennig mewn anghenion addysgol arbennig. Awgrymwyd hefyd y dylai Ann Jones gynrychioli'r Pwyllgor yn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, oherwydd ei phrofiad sylweddol mewn materion adnoddau dynol.

<u>Camau a Chasgliadau</u>

6.3 Byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgorau priodol a gofyn i’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gael ei gynrychioli yn ystod y trafodaethau hyn. Byddai’r Clerc yn trafod y ffordd orau o ddatblygu hyn gyda’r Clercod priodol.

6.4 Gofynnwyd i’r aelodau roi gwybod i’r Clerc os oeddynt yn dymuno cynrychioli’r Pwyllgor mewn unrhyw faes penodol.

**Eitem 7: Adroddiad gan Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ymestyn Categorïau Pobl sydd â’r hawl i Brofion Llygaid Am Ddim**
**Papur: HSS-12-00(p.6)**

7.1 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cynulliad ddiwygiad i’r papur, a geir yn Atodiad B.

7.2 Derbyniwyd y diwygiad a byddai’r adroddiad yn cael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl.

7.3 Anogodd yr Ysgrifennydd Cynulliad yr Aelodau i ymweld â’r Ganolfan Telefeddyginiaeth a gweld yr arddangosiad ar Retinopathi Diabetig.

**Eitem 8: Cofnodion Cyfarfod 17 Mai**
**Papur: HSS-10-00(min)**

8.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod, yn ddarostyngedig i’r diwygiadau canlynol:

> 2.3 Y pwynt bwled cyntaf i ddarllen,
>
> > "Mynegwyd pryder bod rhestrau aros bellach 15,000 dros y lefel a gyflawnwyd erbyn Mawrth 1998"
>
> 4.3 Rhoi trydydd pwynt bwled newydd fel a ganlyn:
>
> - "Gofynnwyd i’r swyddogion ddarparu cyngor ar y canlynol:
> - y ffordd y mae’r Comisiwn Cyfle Cyfartal a’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn gweithredu; a pha bwerau sydd ganddynt i gyfeirio cyrff nas ariennir yn gyhoeddus;
> - pa bwerau a fyddai gan y Comisiynydd i gynrychioli pobl ifanc o Gymru sy’n derbyn gofal neu wasanaethau eraill yn Lloegr;
> - pwerau’r Comisiynydd parthed gwasanaethau heb eu datganoli gan gynnwys goblygiadau’r pë er sy’n mynnu bod gwybodaeth yn cael ei datgelu;
> - cyngor cyfreithiol ar allu’r Cynulliad i benodi Comisiynydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru".

<u>Materion yn Codi</u>

8.2 Cadarnhawyd bod Canolfan Ganser Glan Clwyd wedi agor a'i fod yn ased gwerthfawr a i'r gymuned.

**Papur i'w Nodi: Gwasanaethau Canser yng Nghymru**
**Papur: HSS-12-00(p.7)**

9.1 Mynegodd yr Aelodau siom na fyddai cyfle i drafod y papur hwn a gofynnwyd am gyfle i'w ystyried cyn y drafodaeth ar flaenoriaethau cyllidebol.

9.2 Cytunwyd y byddai cyfarfod anffurfiol yn cael ei drefnu i'r Pwyllgor dderbyn cyflwyniadau gan Dr Jane Hanson, Cydlynydd rhaglen y Grp Gwasanaethau Canser a chan Gymdeithas Thorasig Cymru. Gofynnwyd hefyd y dylid ystyried y problemau penodol mewn ardaloedd difreintiedig yn y cyflwyniadau.

<u>Camau a Chasgliadau</u>

9.3 Byddai'r Clerc yn chwilio am ddyddiad addas cyn 5 Gorffennaf.

**Atodiad A**

<u>JANE HUTT YN CYHOEDDI TARGEDAU NEWYDD AR GYFER CLEIFION</u>

<u>SY'N AROS AM DRINIAETH</u>

Bydd y £40m a ddyrannwyd i awdurdodau iechyd i fynd i'r afael â rhestrau aros a phwysau achosion brys yn galluogi'r NHS i leihau'n sylweddol y cyfnod y mae'n rhaid i gleifion aros am driniaeth a chwrdd â thargedau newydd a osodwyd gan y Cynulliad, meddai Jane Hutt, yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol heddiw (dydd Mercher, 7 Mehefin).

Gan annerch y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dywedodd Jane Hutt: "Ym mis Mai rhyddheuais £40m i'r awdurdodau iechyd fynd i'r afael ag amserau aros annerbyniol yn yr NHS. Mae disgwyl i bob un o'r awdurdodau iechyd hyn ddefnyddio'r arian hwnnw i gwrdd â'r targedau llym ac ymestynnol yr wyf wedi gosod ar eu cyfer eleni. Erbyn diwedd Mawrth 2001 mae'n rhaid i awdurdodau iechyd leihau rhestr aros Cymru gyfan ar gyfer triniaeth cleifion mewnol a chleifion dydd i tua 65,500. Mae hyn yn golygu gostyngiad o 15,000.

"Rwyf hefyd yn disgwyl i'r awdurdodau iechyd:

- Dileu nifer y bobl sy'n aros am fwy na chwe mis ar gyfer triniaeth cataractau;
- Lleihau nifer y bobl sy'n aros am fwy na chwe mis am apwyntiad claf allanol cyntaf 50 y cant;
- Dileu nifer y bobl sy'n aros am fwy na 12 mis ar gyfer triniaeth cleifion mewnol a chleifion dydd yn y rhan fwyaf o'r achosion erbyn diwedd Mehefin 2001,
- Cytuno ar raglen dreiglol i reoli'r galw yn well a sefydlu systemau derbyniadau a archebir, a hynny'n gynaladwy.

"Oherwydd problemau penodol niferoedd mewn orthopedeg a llawdriniaeth gosmetig, mae'n ofynnol i'r awdurdodau iechyd ddatblygu rhaglenni tymor hwy i ddelio â'r amserau a'r rhestrau aros hir yn yr arbenigeddau hyn.

"Bydd yr arian a ddyrennais eleni yn galluogi'r awdurdodau iechyd i gyflawni'r nodau hyn. Mae hyn yn newyddion da i gleifion. Fy mwriad hefyd yw y dylid darparu tua £35m o'r £40m sydd ar gael eleni ar sail gylchol a fydd yn galluogi gwelliant cyson o ran rhestrau aros a'r pwysau sydd ar achosion brys."

Gwnaeth Jane Hutt ddatganiad hefyd am raglen, *Innovations in Care*, i foderneiddio mynediad cleifion i driniaeth mewn ysbytai ledled Cymru.

"Bydd y rhaglen hon yn gatalydd i lywio'r newid a'r dyfeisgarwch sydd ei angen yn yr NHS i leihau rhestrau ac amserau aros," dywedodd. "Bydd yn sicrhau bod pob sefydliad yn NHS Cymru yn cyflwyno arfer gorau wrth flaenoriaethu a thrin cleifion. Bydd yn moderneiddio a thrawsnewid y ffordd y mae gofal cleifion yn cael ei gyflwyno yng Nghymru ac yn rhoi'r offer angenrheidiol i'r ymddiriedolaethau a'r awdurdodau iechyd i gyflwyno'r newid.

"Bydd y rhaglen yn cael ei arwain gan Susan Burnett, a ymunodd â'r Cynulliad o Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro. Bydd yn arwain tîm bach o gydweithwyr o'r NHS i weithio ar hyrwyddo dyfeisgarwch i ledaenu arfer da.

"Mae hon yn rhaglen uchelgeisiol a fydd yn gwella gofal iechyd ar gyfer pobl Cymru. Mae'r arian ar gael i wneud gwahaniaeth ynghyd â'r ymrwymiad i newid er gwell."

**Noder**

Y targedau unigol i awdurdodau iechyd eu cyflawni erbyn diwedd Mawrth 2001 yw:

Awdurdod Iechyd Bro Taf – lleihau rhestrau aros cleifion mewnol ac achosion dydd i tua 16,687.

Awdurdod Iechyd Dyfed Powys – lleihau rhestrau aros cleifion mewnol ac achosion dydd i tua 12,791.

Awdurdod Iechyd Gwent – lleihau rhestrau aros cleifion mewnol ac achosion dydd i tua 12,916.

Awdurdod Iechyd Morgannwg – lleihau rhestrau aros cleifion mewnol ac achosion dydd tua 10,800.

Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru – lleihau rhestrau aros cleifion mewnol ac achosion dydd tua 12,065

**Atodiad B**

Diwygiad i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ymestyn Categorïau Pobl sydd â'r hawl i Brofion Llygaid Am Ddim

O dan Gasgliadau ac Argymhellion, rhowch

> Yn llinell 5 ar ôl "*pecyn cynhwysfawr"* rhowch atalnod llawn a *"Cytunodd y pwyllgor i ymestyn y ddarpariaeth o brofion llygaid am ddim i bobl o leiafrifoedd ethnig, pobl â nam ar eu clyw, pobl ag un llygad a'r rhai sydd mewn perygl o retinitis pigmentosa. Mae'r arian yn ymwneud â 2000-01.*
>
> *Mae grp o arbenigwyr wedi ymgynnull a gofynnwyd iddynt ddatblygu cynigion i gyflwyno prawf llygaid newydd sydd wedi ei gynllunio i ganfod afiechyd llygaid. Y bwriad yw y bydd yr archwiliad ar gael ar gais y grwpiau hynny sydd mewn mwy o berygl, ac efallai y bydd archwiliad tebyg ar gael i bobl eraill ar ôl i feddyg teulu eu cyfeirio. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth gwirioneddol newydd ac unigryw i Gymru a fydd yn rhoi gwell gofal i gleifion ac yn helpu i leihau rhestrau aros. Bydd yr un*
>
> *grp o arbenigwyr yn datblygu argymhellion ar gyfer ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a rhaglenni sgrinio ar gyfer afiechyd llygaid."*